# Cyfarfod 6 Grŵp Ecosystem Arfordirol PBC, 1af Rhagfyr, Aberystwyth

**Yn bresennol**: Peter Rhind Cadeirydd (Cyngor Cefn Gwlad); Nick Edwards (Cyngor Cefn Gwlad); Emmer Litt (Cyngor Cefn Gwlad); Mike Howe (Cyngor Cefn Gwlad); Duncan Ludlow (Cyngor Cefn Gwlad); Angus Garbutt (Canolfan Ecoleg a Hydroleg); Sean McHugh (PBC); Tracey Lovering (PBC): Telegynhadledd- Beth Henshall (Cyswllt Amgylchedd Cymru); Chris Wynne (Ymddiriedolaethau Natur); Richard Ellis (Ymddiriedolaeth Genedlaethol – ni chafwyd cysylltiad oherwydd problemau technegol yn Aberystwyth)

**Ymddiheuriadau**: Julie Bowes (LlC-Is-adran Cynaliadwyedd a Thystiolaeth Amgylcheddol); Steve Chambers (LlC-Is-adran Cynaliadwyedd a Thystiolaeth Amgylcheddol); Matty Murphy (Cyngor Cefn Gwlad); Jane Hodges (APC Arfordir Sir Benfro); Quentin Grimley (Cyngor Cefn Gwlad); Nicky Rimington (Cyngor Cefn Gwlad); David Cowley (LBAP Ynys Môn)

## *Cronfa Gwydnwch ac Amrywiaeth Ecosystemau (Llywodraeth Cymru)*

Rhoddodd Peter adroddiad diweddaru i'r grŵp ar yr arian. 20k i Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro ar gyfer prosiectau pori ar 40 safle; 50k ar gyfer astudiaeth llinell sylfaen o adfywio twyni tywod ar safleoedd dethol gyda pheth gwaith ymarferol. Rhaid cwblhau'r prosiectau erbyn diwedd Mawrth 2012. Mike Howe yw'r arweinydd prosiect ar y twyni tywod.

**Gweithredu: Peter i gysylltu â Mike Regelous ynglŷn â Phrosiect Sir Benfro.**

**Gweithredu: Pawb i adolygu'r fframwaith gweithredu arfordirol ac anfon prosiectau ychwanegol at Peter fel sy'n briodol.**

Mae Jan Sherry a Jim Latham yn cwblhau'r mapiau cynefinoedd â blaenoriaeth ar eu gwedd derfynol – cânt eu defnyddio fel ffocws i flaenoriaethau cenedlaethol a gweithredu lleol fel sy'n briodol. Angen bod â phrosiectau mewn golwg i fanteisio ar arian yn y dyfodol (e.e. os bydd y gronfa gwydnwch ecosystemau yn parhau).

**Gweithredu: Tracey i gynnwys materion ynglŷn ag ariannu fel eitem ar yr agenda yng nghyfarfod nesaf y Cadeiryddion (13 Mawrth 2012)**

## *Amgylchedd Cymru a Chronfa Cymunedau Arfordirol y DU*

Sicrhaodd y Grŵp Ecosystemau Arfordirol 15k i adfer cynefin tegeirian y fign galchog yng Nghynffig a symiau llai ar gyfer gwaith cynefin yn Nicholaston Burrows a Pennard a De Gŵyr. Y gronfa'n debygol o fod ar gael y flwyddyn nesaf (uchafswm o 15k y prosiect) – manylion pellach i'w cyhoeddi ond mae'n debygol y bydd yn cynnwys elfen gymunedol a bydd cyswllt ynddi â'r blaenoriaethau a nodwyd yn yr ymarferiad mapio blaenoriaethau.

Nid oes rhagor o fanylion am y gronfa cymunedau arfordirol wedi cael eu rhyddhau ar wahân i'r cyhoeddiad cychwynnol. Cyswllt: http://www.hm-treasury.gov.uk/press_86_11.htm
Ceisiadau'n agor ym mis Ebrill 2012. Dyrannwyd £1.15 miliwn i Gymru.

**Gweithredu: Sean i anfon manylion y ddwy gronfa pan fyddant ar gael.**

Cyhoeddodd Tracey gais am fyfyriwr lleoliad i Gymru i helpu'r cyrff anllywodraethol llai a chynhelir cais ffurfiol am y swydd ym mis Ionawr.

Codwyd statws prosiectau ailalinio arfordirol posibl. Gallent gael eu defnyddio fel prosiect peilot o dan Fframwaith yr Amgylchedd Naturiol. Crybwyllwyd moryd afon Mawddach fel safle posibl. Yn y Gogledd, mae gwaith cwmpasu wedi cael ei wneud i ddarogan effeithiau newid yn yr hinsawdd ar arfordir Gwynedd a Chonwy. Gallai hyn arwain at gais posibl a chreu cynefinoedd.

**Gweithredu: Sean i gysylltu ag Asiantaeth yr Amgylchedd am brosiectau posibl i ailalinio'r arfordir yng Nghymru.**

**Gweithredu: Chris Wynne i anfon manylion am brosiect gogledd Cymru at y grŵp.**

## *Gweithdy Twyni Tywod-y camau nesaf*

Edrychodd y gweithdy a gynhaliwyd ym mis Medi ar yr hyn sy'n achosi i dwyni tywod sefydlogi yng Nghymru ac adolygodd y prif safleoedd yng Nghymru i gyd ynghyd ag enghraifft o'r Iseldiroedd. Roedd cyfranogiad rhanddeiliaid yn cael ei ystyried yn allweddol a bydd fforymau lleol yn gweithredu yng nghyswllt pob safle cyflwyno symudiad mewn twyni o bwys. Yng Nghynffig, mae colli cynefin (llac twyni) tegeirian y fign galchog yn ffactor sbarduno – mae ei niferoedd wedi gostwng yn sylweddol yn y degawdau diwethaf.

Mae'r gweithdy'n gyfrwng i sbarduno gweithredu a bydd y 50k o'r gronfa gwydnwch ecosystemau yn help. Cynhelir deiseb am gais LiFE ym mis Medi 2012.

**Gweithredu: Peter/Mike i fynd ar drywydd y cais LiFE yng nghyswllt twyni tywod.**

## *Y Diweddaraf am Fapio Cynefinoedd â Blaenoriaeth*

Cyflwynodd y grŵp arfordirol y mapiau cynefinoedd â blaenoriaeth a chrynodeb cyn dyddiad cau Chwe 2011. Yr unig un sydd heb gael ei gwblhau yw'r map blaenoriaeth traethellau graeanog â llystyfiant. Derbyniodd y grŵp y crynodeb fel adlewyrchiad cywir.

**Gweithredu: Peter i gwblhau'r map blaenoriaeth traethellau graeanog â llystyfiant ar ei wedd derfynol.**

O ran y mapiau twyni tywod a chlogwyni meddal mae blaenoriaethau ynghlwm. Bydd y mapiau yn arf defnyddiol i Fframwaith yr Amgylchedd Naturiol a byddant yn

dylanwadu ar y dull rheoli ar lefel ecosystemau. Mae Jan yn golygu'r grŵp cyntaf o fapiau cynefinoedd â blaenoriaeth yn derfynol a'r gobaith yw y bydd y rhain yn barod cyn diwedd y flwyddyn. Caiff y mapiau a'r crynodebau eu harddangos ar wefan PBC.

Yn Lloegr lluniwyd y blaenoriaethau gan IBDA (*integrated biodiversity delivery areas*) a bu arbenigwyr cynefin yn mynd i gyfarfodydd rhanbarthol. Roedd grwpiau lleol yn bwydo i'r grwpiau cenedlaethol. Bydd adolygiad Lawton yn adeiladu ar y gwaith hwn.

Yng Nghymru, byddai'n dda o beth llunio strategaeth ar sut yr ydym yn ymgysylltu â'r grwpiau ecosystemau/grwpiau LBAP unwaith y mae'r ymarferiad mapio cynefinoedd â blaenoriaeth wedi cael ei gwblhau.

**Gweithredu: Mike Howe i siarad â Jan Sherry ynglŷn â chyflwyno'r cynnydd i gyfarfod y Cadeiryddion a/neu'r Grŵp Ecosystem Arfordirol rhanbarthol/ cyflwyniadau i egluro'r casgliadau**.

**Gweithredu: Sean i arddangos y mapiau cynefinoedd arfordirol â blaenoriaeth ar wefan PBC ar ôl iddynt gael eu rhyddhau gan Jan.**

Trafodwyd integreiddio rhywogaethau ynghyd â chynefinoedd â blaenoriaeth. Mae'r Ganolfan Ecoleg a Hydroleg wedi cynhyrchu rhestr o rywogaethau BAP i gynefinoedd y DU ar sail data NBN, gan roi map o ddosbarthiad rhywogaethau â blaenoriaeth. Byddai hyn yn ffynhonnell gyfeirio ddefnyddiol i Gymru ac yn ategu'r gwaith integreiddio rhywogaethau-cynefinoedd a gwaith Stuart Rowden (Cyngor Cefn Gwlad) ar integreiddio rhywogaethau Ad42.

**Gweithredu: Tracey i dynnu adroddiad y Ganolfan Ecoleg a Hydroleg i sylw Jan.**

## *Bylchau tystiolaeth a Pholisi*

Tynnwyd sylw at y ffaith fod angen arolwg clogwyni; yn gyffredinol nid yw cynefinoedd arfordirol yn cael eu cynnwys yn yr Arolwg Cefn Gwlad.

**Gweithredu: Peter i symud yr arolwg o glogwyni morol ymlaen gyda'r Cyngor Cefn Gwlad.**

Byddai bwiau monitro ychwanegol agos i'r lan yn ddefnyddiol i dracio priodweddau cemegol a ffisegol y dŵr.

**Gweithredu: Emma i anfon yr adroddiad hwn at y Grŵp Ecosystem Forol.**

Byddai astudiaeth ynghylch effeithiau lefel y môr yn codi ar forfeydd a gwastadeddau llaid yn ddefnyddiol. Mae Asiantaeth yr Amgylchedd/y Cyngor Cefn Gwlad yn cynnal astudiaeth yn ymwneud â gwasgfa arfordirol a'r effaith ar rywogaethau. Bydd yr adroddiad a datganiad sefyllfa ar gael yn fuan.

**Gweithredu: Emma i gylchredeg yr adroddiad pan fydd ar gael.**

Mae amodau Glastir yn effeithio ar fioamrywiaeth cynefinoedd arfordirol. Comisiynwyd Thompson Ecology i fonitro Glastir ac mae hwn yn angen ymchwil.

**Gweithredu: Angus i anfon diweddariad at Peter yn galw am ymchwil Glastir ar gynefinoedd arfordirol.**

Mae astudiaethau a gomisiynwyd gan y Cyngor Cefn Gwlad wedi cael eu cynnal yng nghyswllt adfer traethau ac astudiaeth o geomorffoleg Merthyr Mawr.

**Gweithredu: Emma i gylchredeg y ddau adroddiad i'r grŵp pan fyddant ar gael.**

Tynnwyd sylw hefyd at ewtroffigedd fel ffactor negyddol o bwys mewn cynefinoedd arfordirol, yn arbennig morfeydd a thwyni tywod.

**Gweithredu: Peter i gynnwys ewtroffigedd yn nhabl polisi'r Grŵp Ecosystem Arfordirol**

Mae gan Is-adran Cynaliadwyedd a Thystiolaeth Amgylcheddol Llywodraeth Cymru gynrychiolwyr ar bob un o grwpiau ecosystemau a grwpiau arbenigol rhywogaethau PBC. Gall y cynrychiolwyr gysylltu â'r is-adran/person priodol yn Llywodraeth Cymru ynglŷn â materion polisi, strategaeth ac ymchwil. Julia Bowes (Steve Chambers wrth gefn) yw cynrychiolydd arfordirol yr is-adran. Mae angen cysylltu â nhw ynglŷn â materion perthnasol.

**Gweithredu: Sean i siarad â chynrychiolydd yr Is-adran Cynaliadwyedd a Thystiolaeth Amgylcheddol ynglŷn â'i hymwneud â'r Grŵp Ecosystem Arfordirol.**

Dyddiad y cyfarfod nesaf: Awgrymwyd cyfarfod bore byr ac yna ymweliad maes ym mis Ebrill. Byddai Cynffig yn ddelfrydol oherwydd dylai'r gwaith i gyflwyno symudiad yn y twyni fod wedi cael ei wneud erbyn mis Ebrill. Câi'r cyfarfod ei drefnu ar ôl gwyliau'r Pasg (16$^{eg}$-30$^{ain}$ Ebrill).

**Gweithredu: Sean i gadarnhau pryd sy'n gyfleus i Gynffig a gwahodd cynrychiolwr LBAP.**